Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Y Gwir Anrhydeddus Priti Patel AS
Ysgrifennydd Cartref
2 Stryd Marsham
Llundain
SW1P 4DF

15 Ebrill 2020

**Parth: Rheoli Troseddwyr yn Integredig**

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

Ysgrifennaf mewn perthynas â'r adroddiad y sonnir amdano uchod, sy'n cael ei groesawu gan y Prif Gwnstabl Mark Collins a minnau.

Fel y nodir yn yr argymhellion, rydyn ni'n cydnabod bod nifer o sefydliadau'n gyfrifol am sicrhau trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli troseddwyr ar y cyd. Rwy'n cadeirio cyfarfodydd chwarterol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, ac mae ein strwythur yn cynnwys is-grŵp sy'n canolbwyntio ar Reoli Troseddwyr. Mae hyn yn cynnwys Rheoli Troseddwyr yn Integredig, Trefniadau Aml-asiantaethol Er Diogelu'r Cyhoedd, a fy Nghynllun Dargyfeirio Troseddwyr ar gyfer troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer gwarediadau tu allan i'r llys, sydd newydd ei gomisiynu. Mae hyn yn dwyn trefn lywodraethu'r holl reolaeth amlasiantaethol o droseddwyr ac adroddiadau i'r Bwrdd ynghyd drwy Bennaeth Uned Cyflenwi Lleol Dyfed-Powys ar gyfer Profiannaeth. Mae unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad, gwaith partneriaeth neu beryglon sy'n dod i'r amlwg yn cael eu dwysau i'r Bwrdd ar gyfer trafodaeth.

Yn fy swydd fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, rwy'n ymwybodol fod y trefniadau ar gyfer rheoli troseddwyr yn integredig yn ardal Dyfed-Powys yn dilyn canllawiau cenedlaethol IOM Cymru, fel y nodir yn Fframwaith Strategol a Chanllaw Cyflenwi IOM Cymru. Mae'r Prif Gwnstabl wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys wedi

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk



ymrwymo i wella'r canlyniadau ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr, ac o'r herwydd, maent wrthi'n adolygu swyddogaethau rheoli troseddwyr yn integredig ar draws ardal Dyfed-Powys. Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys troseddau niferus a Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru.

Mae'r adolygiad yn cynnwys swyddogaethau allweddol y trefniadau ar gyfer rheoli troseddwyr yn integredig (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny), gan gynnwys:

- Trefniadau llywodraethu
- Cyfansoddiad carfan
- Darparu adnoddau
- Systemau TG
- Trefniadau partneriaeth
- Rheoli cudd-wybodaeth
- Cysoni â blaenoriaethau strategol
- Ymyriadau
- Trefniadau bregusrwydd a rheoli troseddwyr ehangach

Er mwyn cefnogi'r ymgymeriad hwn, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adolygu Rheoli Troseddwyr yn Integredig, ac mae'r Prif Gwnstabl Collins wedi rhoi copi imi o'r cylch gorchwyl, sydd wedi fy sicrhau ynghylch diben a phroses yr adolygiad.

Mae'r adolygiad yn anelu i gyflwyno set o argymhellion o dan pob maes a fydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Troseddwyr, cyn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Bydd hyn yn cynnwys tystiolaeth mewn perthynas â'r ffordd y mae'r model gweithio cyfredol yn cyd-fynd â'r canllaw ar gyfer cyflenwi rheoli troseddwyr yn integredig a chanllaw gweithredol Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru, gyda rhesymau dros unrhyw amrywiadau ac argymhellion lle bo hynny'n briodol.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Mae'r Prif Gwnstabl wedi gofyn am iddo gael ei nodi y bydd oedi o ran cwblhau'r adolygiad yn awr oherwydd COVID-19, ond fe'm sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn cwblhau rhan casglu tystiolaeth yr adolygiad erbyn Mehefin 2020. Mae hyn yn cynnwys holiadur adolygiad Rheoli Troseddwyr yn Integredig a gyhoeddwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf er mwyn i asiantaethau partner ei gwblhau. Rhoddwyd copi i mi, a bydd fy swyddfa'n darparu ymateb er mwyn sicrhau darlun mor gynhwysfawr â phosibl.

Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi dweud wrthyf fod Protocol Rhannu Gwybodaeth Rheoli Troseddwyr Dyfed-Powys wedi'i adnewyddu yn ddiweddar yn unol â chanllawiau, a bydd y panel Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn ei ddilysu ym mis Ebrill 2020.

Mae mesurau mewn grym ar lefel strategol a gweithredol lle mae diogelwch dioddefwyr yn cael ei drafod a'i adolygu'n rheolaidd. Mewn rhai achosion, mae hyn yn digwydd yn ddyddiol. Bydd canolfan fregusrwydd Dyfed-Powys, a sefydlwyd yn ddiweddar, yn gwella'r ffocws ar amddiffyn y cyhoedd ac mae'n cynnwys cydlynu critigol swyddogaethau rheoli troseddwyr a diogelu.

Er bod hyfforddiant ar gyfer recriwtiaid newydd a swyddogion CID nawr yn cynnwys trosolwg o drefniadau rheoli troseddwyr yn integredig, mae'r Prif Gwnstabl yn cydnabod nad oes pecyn hyfforddi ffurfiol o ran rheoli troseddwyr yn integredig y gellir ei gynnig i swyddogion Rheoli Troseddwyr yn Integredig newydd, Rheolwyr Troseddwyr Profiannaeth neu asiantaethau partner. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad.

Yr wyf hefyd yn edrych ymlaen at y cyfleoedd y mae'r rhaglen Cryfhau Profiannaeth bresennol yn eu darparu. Yr wyf wrthi'n cynnal trafodaethau ar sail Cymru gyfan mewn perthynas â'r potensial ar gyfer cyd-gomisiynu nifer o raglenni ymyrraeth a chymorth ar gyfer troseddwyr.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440
**Ffacs: Fax:** 01267 226448
**E-bost: Email:** opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Hyderaf fod yr uchod yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'r trefniadau sydd mewn grym o fewn yr heddlu ar gyfer adolygu a mynd i'r afael â'r diffygion mewn trefniadau rheoli troseddwyr yn integredig. Fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, edrychaf ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach ar yr adolygiad maes o law i'm galluogi i gyflawni fy swyddogaeth o graffu ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli troseddwyr yn ardal Dyfed-Powys.

Ceir copi o'r ymateb hwn ar fy ngwefan.

Yr eiddoch yn gywir

**Dafydd Llywelyn**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Copi at: Wendy Williams AEM

Y Prif Gwnstabl Mark Collins

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn golygu oediad.

We welcome correspondence in Welsh and English. Corresponding in Welsh or English will not lead to a delay.